# Gwneud cais am gymeradwyaeth gan yr ASB ar gyfer sefydliad cig neu sefydliad bwyd

Sut i wneud cais am gymeradwyaeth gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yr asesiad cymeradwyo, a'r hawl i apelio.

Rhestr o sefydliadau a gymeradwyir gan yr ASB.

## Cais am sefydliad newydd

Defnyddiwch ein gwasanaeth cymeradwyo i wneud cais gam gymeradwyaeth gan yr AS ar gyfer eich sefydliad. Bydd angen i chi greu cyfrif er mwyn defnyddio'r gwasanaeth hwn.

Pan ddaw eich cais i law, bydd un o'n swyddogion milfeddygol yn cysylltu â chi o fewn pythefnos i drefnu ymweliad i gynnal asesiad.

PDF
Gweld Step by step guide for meat approvals application  as PDF(Open in a new window)
(559.42 KB)

## Cais am weithgareddau ychwanegol

Os ydych eisoes wedi'ch cymeradwyo fel sefydliad cig ac rydych am wneud cais i gymeradwyo gweithgareddau neu rywogaethau ychwanegol, defnyddiwch ein gwasanaeth cymeradwyo.

**Gwneud cais am gymeradwyaeth gan yr ASB**

### Rheoli eich cais

Ar ôl i chi gyflwyno'ch cais, byddwch yn gallu ei reoli a'i olrhain trwy ein gwasanaeth ceisiadau am gymeradwyaeth.

### Cymru a Lloegr

### Ymweliadau cynghori

Os ydych am wneud cais i gymeradwyo eich sefydliad, gallwch ofyn am ymweliad cynghori. Nod ymweliadau cynghori yw eich helpu i nodi'r gofynion lles a hylendid a allai fod yn gymwys i'ch gweithgareddau cymeradwyo arfaethedig. Mae'r meysydd cyngor yn cynnwys strwythur adeiladau, offer a chyfleusterau, ystyriaethau hylendid gweithredol a HACCP, arferion da, rheoli cofnodion, a gweithdrefnau gweithredu safonol yn ogystal â lles anifeiliaid.

Codir ffi benodol am ymweliadau cynghori sy'n daladwy cyn yr ymweliad.  Y ffi ar gyfer y flwyddyn ariannol rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 yw £395.40 gan gynnwys TAW. Ni ellir ad-dalu'r ffi hon.

Gallwch ofyn am ymweliad cynghori pan fyddwch yn cyflwyno eich ffurflen gais wrth ddefnyddio ein gwasanaeth cymeradwyo.

### England and Wales

PDF
Gweld Advisory Visits Guidance as PDF(Open in a new window) (274.89 KB)
Pwysig

### Cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE yng nghanllawiau'r ASB

Nid yw deddfwriaeth sy'n uniongyrchol gymwys i'r UE bellach yn gymwys ym Mhrydain Fawr. Daeth deddfwriaeth yr UE a ddargadwyd pan ymadawodd y DU â'r UE yn gyfraith a gymathwyd ar 1 Ionawr 2024, yn unol â'r hyn a gyhoeddwyd ar legislation.gov.uk. Dylai cyfeiriadau at unrhyw ddeddfwriaeth yng nghanllawiau'r ASB sydd ag 'UE' neu 'CE' yn y teitl (er enghraifft, Rheoliad (CE) 178/2002) gael eu hystyried yn gyfraith a gymathwyd lle bo hynny'n gymwys i Brydain Fawr. Bellach, dylid ystyried cyfeiriadau at 'Gyfraith yr UE a Ddargedwir' neu 'REUL' fel cyfeiriadau at gyfraith a gymathwyd.

Yn achos busnesau sy'n symud nwyddau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, mae gwybodaeth am Fframwaith Windsor ar gael ar GOV.UK.

Mabwysiadwyd Fframwaith Windsor gan y DU a'r UE ar 24 Mawrth 2023. Mae'r Fframwaith yn darparu set unigryw o drefniadau i gefnogi llif cynhyrchion manwerthu bwyd-amaeth o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, gan ganiatáu i safonau Prydain Fawr o ran iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd, marchnata a deunyddiau organig fod yn gymwys i nwyddau manwerthu wedi'u pecynnu ymlaen llaw a gaiff eu symud drwy Gynllun Symud Nwyddau Manwerthu Gogledd Iwerddon (NIRMS).

### Asesiad cymeradwyo

Fel rhan o'r broses gymeradwyo, byddwn yn asesu:

- offer a seilwaith eich sefydliad
- eich system rheoli diogelwch bwyd, fel rhan o'r broses gymeradwyo.

Nid oes hawl gennych weithredu tan i chi gael cymeradwyaeth amodol.

Ar ôl eich cymeradwyo, bydd un o'n swyddogion milfeddygol yn dychwelyd o fewn tri mis i asesu'r broses gynhyrchu a'ch cydymffurfiaeth â'r holl ofynion hylendid a nodir yn:

- Rheoliad yr UE a gymathwyd 852/2004 a Rheoliad yr UE a gymathwyd 853/2004 ar gyfer Cymru a Lloegr
- Rheoliad 852/2004 a Rheoliad 853/2004 ar gyfer Gogledd Iwerddon

Ar ôl i'r safle gael ei gymeradwyo, ychwanegir manylion y safle ynghyd â gwybodaeth sy'n ymwneud â'r mathau o fwydydd a gynhyrchir at y rhestrau o sefydliadau cymeradwy.

## Yr hawl i apelio

Mae gennych hawl i apelio yn erbyn ein penderfyniad os gwrthodir cymeradwyaeth i'ch safle o dan gyfraith bwyd.

Gallwch gyflwyno apêl un mis o'r dyddiad y cawsoch wybod am y penderfyniad.

Mae trosolwg llawn o'r broses ar gyfer cymeradwyo sefydliadau cig ym mhennod 1 adran 4 o'r Llawlyfr Rheolaethau Swyddogol (MOC). Mae hefyd yn egluro ym mha amgylchiadau y byddem yn tynnu eich cymeradwyaeth yn ôl.

Cymeradwyo sefydliadau bwyd yng Ngogledd Iwerddon: trefniadau llywodraethu a pholisi cymeradwyo

## Rhestr o sefydliadau bwyd cymeradwy

Rhestr lawn o sefydliadau, fel ffatrïoedd torri a lladd-dai, a gymeradwywyd i drin, paratoi neu gynhyrchu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y gosodir gofynion ar eu cyfer yn Rheoliad (EC) a gymathwyd Rhif 853/2004.

- Sefydliadau Cymeradwy yng Nghymru a Lloegr
- Sefydliadau Cymeradwy yng Ngogledd Iwerddon
- Sefydliadau Cymeradwy yn yr Alban
- Sefydliadau Cymeradwy yn yr Undeb Ewropeaidd